**Eitem ar yr agenda: 10**

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 15 MAWRTH 2004 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **PWNC:** | ALLDRO AMCANOL 2003-2004 |

Mae'r atodlen ynghlwm yn cynnwys yr alldro amcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-04, gan ddangos y bydd gorwariant o £231,585, sydd ychydig yn uwch na'r gorwariant o £216,658 yr adroddwyd i'r Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr. Mae'r gorwariant yn bennaf oherwydd effeithiau'r Cytundeb Cyflog ac Amodau. Fel yr adroddwyd o'r blaen bydd y gorwariant yn cael ei ariannu o danwariant y flwyddyn flaenorol.

Dan Cyflenwadau a Gwasanaethau amcangyfrifir y bydd y costau ar gyfer Cyfrifiaduron yn £88,500 o danwariant. Cafodd y ddarpariaeth o £100,000 yn y gyllideb ar gyfer system reoli adnoddau dynol newydd ei chynnwys o fewn y Costau Cyfrifiadurol ar gyfer 2003-04. Bu oedi wrth brynu'r system hon, yn rhannol oherwydd newidiadau cenedlaethol fel rhan o foderneiddio'r gwasanaeth tân gan gynnwys y System Datblygiad Personol Integredig (IPDS). Gwahoddir tendrau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd. Er mwyn i'r Awdurdod allu prynu'r system yn 2004-05 mae'r datganiad alldro'n dangos trosglwyddiad o £100,000 i'r Ddarpariaeth Gyfrifiadurol.

## ARGYMHELLIAD

**Argymhellir bod**

**(i)** **Y gorwariant yn 2003-2004 yn cael ei ariannu o danwariant y flwyddyn flaenorol.**

**(ii)** **£100,000 yn cael ei drosglwyddo i Ddarpariaeth Gyfrifiadurol i ariannu prynu'r system reoli adnoddau dynol yn 2004-2005.**

*KW FINCH*
Trysorydd

**25 Chwefror 2004**